*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18/06/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol am y Dyledion Drwg a gafodd eu dileu** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y dyledion drwg a gafodd eu dileu rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhoi gwybod i'r aelodau mai swm y dyledion drwg a gafodd eu dileu rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 oedd £196.60.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

5 Ar gais yr Awdurdod, mae'r Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol yn rhestru'r holl ddyledion dan £5,000 sydd wedi cael eu dileu oherwydd nad oes modd eu hadfer, er gwybodaeth.

**GWYBODAETH**

6 Rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, fe wnaeth y Gwasanaeth ddileu pedair dyled ddrwg, yn gwneud cyfanswm o £196.60.

7 Mae manylion y dyledion sydd wedi cael eu dileu i'w gweld yn y rhestr atodedig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rheoli'r gwaith o adfer dyledion yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cyflawni'r amcanion llesiant. |
| Cyllideb | Prin yw'r effaith ar y gyllideb; bydd dyled yn cael ei dileu oherwydd nad oes modd ei hadfer, a hynny dim ond ar ôl i'r Awdurdod Tân ac Achub geisio pob ffordd sydd ar gael i'w hadfer. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub (ATA) i adfer yr holl arian sy'n ddyledus iddo. Mae cyfrifoldeb ar yr ATA i adfer pob swm o'r fath mor effeithlon â phosibl ac i gymryd camau cynnar yn erbyn y rhai nad ydynt yn talu. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Wrth bennu gordaliadau, penderfynu adfer a cheisio adfer, bydd y swyddogion yn gwneud hyn yn sensitif gan barchu hawliau cwsmeriaid. |
| Risgiau | Mae dulliau adfer yn cael eu rheoli er mwyn lleihau'r risg o golled ariannol. |

| **Rhif Anfoneb** | **Dyddiad anfon** | **Enw** | **Swm gwreiddiol** | **Swm a gafodd ei ddileu** | **Rheswm** | **Dyddiad Dileu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 280091699 | 19/11/16 | Gwasanaethau Ffotograffig | 165.60 | 0.10 | Swm bach | 26/05/17 |
| 280091885 | 25/11/16 | Cyn-weithiwr | 70.42 | 70.42 | Wedi dihysbyddu pob dull adfer | 25/10/17 |
| 280091397 | 21/10/16 | Cyn-weithiwr | 643.00 | 16.08 | Wedi dihysbyddu pob dull adfer | 25/10/17 |
| 280095627 | 20/07/17 | Cyn-weithiwr | 110.00 | 110.00 | Canslo Archwiliad Meddygol – roedd y gweithiwr wedi gadael y Gwasanaeth cyn anfon yr anfoneb | 16/02/18 |
| **CYFANSWM** | | | | **196.60** | | |